

Mae geiriad y ddogfen hon yn adlewyrchu gofynion Rheoliad Diogelu Data
Cyffredinol (RhDDC) sydd mewn grym o 25ain Mai 2018.

Maes Gwasanaeth CBST:	Cyfarwyddiaeth Adnoddau
Maes gwaith:	Gwasanaethau Adnoddau Dynol Strategol a Gwasanaethau Gweithwyr
Manylion Cyswllt:	Jason Lewis, Pennaeth AD Strategol a Rheoli Asedau Ffôn: 01495 742666 E-bost: jason.lewis@torfaen.gov.uk
Enw Hysbysiad Preifatrwydd:	HYSBYSIAD PREIFATRWYDD ADNODDAU DYNOL

Rheolwr Data:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
d/o Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
NP4 6YB

Swyddog Diogelu Data a Llywodraethu Gwybodaeth:

Susan Bullock
01633 647467
E-bost: dpa@torfaen.gov.uk

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn casglu ac yn prosesu data personol yn ymwneud a'i staff er mwyn rheoli'r berthynas gyflogaeth. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fod yn dryloyw ynglŷn â sut y mae'n casglu ac yn defnyddio'r data hynny ac i gwrdd a'i rwymedigaethau diogelu data.

Pan fo unigolion yn gwneud cais i weithio i'r Cyngor, byddwn ond yn defnyddio'r wybodaeth y maen nhw'n ei darparu i brosesu eu cais ac i fonitro ystadegau cyfleoedd cyfartal. Caiff gwybodaeth bersonol ynglŷn ag ymgeiswyr aflwyddiannus ei chadw am chwe mis ar ôl diwedd y broses recriwtio, bydd wedyn yn cael ei dinistrio'n ddiogel.

Unwaith bydd person wedi derbyn swydd gyda'r Cyngor rydym yn crynhoi ffeil personél mewn perthynas a'u cyflogaeth. Mae'r wybodaeth yn hon yn cael ei chadw'n ddiogel a bydd ond yn cael ei ddefnyddio at ddibenion sy'n uniongyrchol berthnasol i'r gyflogaeth honno.

1) Ydyn ni wedi cael eich data personol, yn uniongyrchol oddi wrthy ch chi?

Ydym

2) Pa wybodaeth ydy Adnoddau Dynol yn ei chasglu amdanoch chi?

Mae'r Cyngor yn casglu ac yn prosesu amrywiaeth o wybodaeth amdanoch chi. Mae hyn yn cynnwys:

- eich enw, cyfeiriad a manylion cyswllt, gan gynnwys cyfeiriad e-bost a rhif ffôn, dyddiad geni a rhyw;
- telerau ac amodau eich cyflogaeth;
- manylion eich cymwysterau, sgiliau, profiad a hanes eich cyflogaeth, gan gynnwys dyddiadau cychwyn a gorffen, gyda chyflogwyr blaenorol a gyda'r Cyngor ;
- gwybodaeth ynglŷn â'ch tâl, gan gynnwys eich hawl i fuddion fel pensiwn neu yswiriant;
- manylion eich cyfrif banc a rhif yswiriant cenedlaethol;
- gwybodaeth ynglŷn â'ch statws priodasol, teulu agosaf, dibynyddion a chyswllt mewn argyfwng;
- gwybodaeth ynglŷn â'ch cenedligrwydd a'ch hawl i weithio yn y DU;
- gwybodaeth ynglŷn â'ch cofnod troseddol;
- manylion eich amserlen (dyddiau ac oriau gwaith) a phresenoldeb yn y gwaith;
- manylion cyfnodau o absenoldeb yr ydych yn eu cymryd, gan gynnwys gwyliau, absenoldeb oherwydd salwch, seibiant teuluol a chyfnodau sabothol, a'r rhesymau dros yr absenoldebau;
- manylion unrhyw achosion o ddisgyblu neu gwyn y buoch chi ynghlwm â nhw, gan gynnwys unrhyw rhybuddion a roddwyd i chi ac unrhyw ohebiaeth gysylltiol;
- asesiadau o'ch perfformiad, gan gynnwys gwerthusiadau, adolygiadau a graddau perfformiad, cynlluniau gwella perfformiad a gohebiaeth gysylltiol;
- gwybodaeth ynglŷn â chyflyrau meddygol neu iechyd, gan gynnwys a oes gennych chi anabledd sy'n golygu bod angen i'r Cyngor wneud addasiadau rhesymol ar ei gyfer;
- a oes gennych chi anabledd sy'n golygu bod angen i'r Cyngor wneud addasiadau rhesymol ar ei gyfer yn ystod y broses recriwtio; a
- gwybodaeth monitro cyfleoedd cyfartal gan gynnwys gwybodaeth ynglŷn â'ch cefndir ethnig, tueddiadau rhywiol, iechyd a chrefydd neu gredoau.

3) Gall y Cyngor gasglu'r wybodaeth yma mewn amrywiaeth o ffyrdd:

Gall y Cyngor gasglu'r wybodaeth yma mewn amrywiaeth o ffyrdd. Er enghraifft, efallai bydd data'n cael ei gasglu trwy ffurflenni cais, o'ch pasbort neu ddogfennau

adnabod eraill fel eich trwydded gyrru; o ffurflenni yr ydych yn eu cwblhau ar ddechrau neu yn ystod eich cyflogaeth (fel ffurflenni enwebiad buddion); o ohebiaeth gyda chi neu drwy gyfweiliadau, cyfarfodydd neu asesiadau gan gynnwys profion ar-lein.

Efallai bydd y Cyngor yn casglu data personol ynglŷn â chi o drydydd partion, fel tystlythyrau gan gyn-gyflogwyr, gwybodaeth gan ddarparwyr gwiriadau cefndir cyflogaeth a gwybodaeth o wiriadau cofnodion troseddol a ganiateir yn ôl y gyfraith. Bydd y Cyngor ond yn gofyn am wybodaeth gan drydydd partion unwaith bydd cynnig o swydd wedi ei roi ac rydych wedi rhoi caniatâd ar y ffurflen gais i ni wneud hynny.

Byddwn yn storio eich data:

Bydd data'n cael ei storio mewn amrywiaeth o leoedd gwahanol ar rwydwaith diogel yn systemau rheoli AD y Cyngor ac mewn systemau TG eraill (gan gynnwys system e-byst y Cyngor) a bydd yn cynnwys eich cofnod ceisiadau a chofnod cyflogaeth. Cyfyngir ar fynediad i'r data yma yn unol â pholisïau mewnol y Cyngor ac yn unol â RhDDC. Mewn sefyllfa ble fydd rhaid i ni ddarparu copïau papur mae'r rhain yn cael eu cadw mewn lle diogel ac yna'n cael eu dinistrio mewn ffordd diogel.

4) Pam fod y Cyngor yn prosesu eich data personol?

Mae angen i'r Cyngor brosesu data i gymryd camau cyn ac wrth mynd i gytundeb cyflogaeth gyda chi i gwrdd â'i rwymedigaethau yn eich cytundeb cyflogaeth. Er enghraifft, mae angen iddo brosesu eich data er mwyn rhoi cytundeb cyflogaeth i chi, i'ch talu chi yn unol â'ch cytundeb cyflogaeth a gweinyddu taliadau pensiwn galwedigaethol a hawl i yswiriant.

Mewn rhai achosion mae angen i'r Cyngor brosesu data er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, Er enghraifft, mae'n ofynnol i gyflogwyr wirio hawl gweithwyr i weithio yn y DU cyn iddyn nhw dechrau mewn swydd, i dynnu treth, i gydymffurfio â chyfreithiau iechyd a diogelwch a galluogi staff i gymryd cyfnodau o seibiant y mae ganddyn nhw hawl iddynt.

Mae gan y Cyngor fudd cyfiawn mewn prosesu data personol yn ystod y broses recriwtio ac am gadw cofnodion o'r broses. Mae prosesu data gan ymgeiswyr am swydd yn caniatáu i'r Cyngor i reoli'r broses recriwtio, asesu a chadarnhau bod ymgeisydd yn addas ar gyfer y swydd a phenderfynu i bwy i gynnig swydd. Efallai bydd angen i'r Cyngor hefyd brosesu data gan ymgeiswyr am swydd er mwyn ymateb i ac i amddiffyn hawliadau cyfreithiol.

Gall bydd y Cyngor yn prosesu gwybodaeth ynglŷn ag a yw ymgeiswyr yn anabl ai peidio er mwyn gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr sydd ag anabled. Mae hyn er mwyn cwrdd â'r gofynion sydd arno ac arfer hawliau penodol mewn perthynas â chyflogaeth.

Pan fydd y Cyngor yn prosesu categorïau arbennig o ddata, fel gwybodaeth ynglŷn â chefnidir ethnig, tueddiad rhywiol, iechyd neu grefydd neu gredoau, mae hyn at dibenion monitro cyfleoedd cyfartal.

Ar gyfer rhai swyddi, mae'n ofynnol i'r Cyngor geisio gwybodaeth ynglŷn ag euogfarnau a throseddau. Pan fydd y Cyngor yn ceisio'r wybodaeth, mae'n gwneud hynny oherwydd ei fod yn angenrheidiol iddo gyflawni ei rwymedigaethau ac arfer hawliau penodol mewn perthynas â chyflogaeth.

Ni fydd y Cyngor yn defnyddio'ch data at unrhyw ddiben ac eithrio'r arfer recriwtio yr ydych wedi gwneud cais amdano.

Mewn achosion eraill, mae gan y Cyngor fudd cyfiawn mewn prosesu data personol cyn, yn ystod ac ar ôl diwedd y berthynas gyflogaeth. Mae prosesu data staff yn caniatáu i'r Cyngor:

- redeg prosesau recriwtio a hyrwyddo;
- cadw cofnodion cyflogaeth a manylion cyswllt cywir a chyfredol (gan gynnwys manylion am bwy i gysylltu â nhw os bydd argyfwng), a chofnodion o hawliau cytundebol a statudol cyflogaeth;
- gweithredu a chadw cofnod o brosesau disgyblaeth a chwynion, er mwyn sicrhau ymddygiad derbyniol yn y gweithle;
- cynnal a chadw cofnod o berfformiad staff a phrosesau cysylltiol, cynllunio ar gyfer datblygu gyrfa, ac ar gyfer dibenion cynllunio etifeddol a rheoli'r gweithlu;
- cynnal a chadw cofnod o absenoldeb a mesurau rheoli absenoldeb, caniatáu rheolaeth effeithiol ar y gweithlu a sicrhau bod staff yn derbyn y tâl a'r buddion y mae ganddyn nhw'r hawl iddynt;
- cael cyngor ar iechyd galwedigaethol, sicrhau ei fod yn cydymffurfio â dyletswyddau mewn perthynas ag unigolion ag anableddau, cwrdd a'i rwymedigaethau o dan gyfraith iechyd a diogelwch, a sicrhau bod staff yn derbyn y tâl a'r buddion y mae ganddyn nhw'r hawl iddynt;
- cynnal a chadw cofnod o fathau eraill o seibiant gan gynnwys absenoldeb mamolaeth, tadolaeth, mabwysiadau, rhieni ac absenoldeb rhanedig i rieni), i alluogi rheolaeth effeithiol ar y gweithlu, sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â dyletswyddau mewn perthynas â'r hawl i absenoldeb a sicrhau bod staff yn derbyn y tâl a'r buddion y mae ganddyn nhw'r hawl iddynt;
- sicrhau AD cyffredinol a gweinyddiad busnes effeithiol;
- darparu tystlythyrau ar gais ar gyfer staff presennol neu gyn-staff; ac
- ymateb i ac amddiffyn hawliadau cyfreithiol.

5) Categoriâu Arbennig o ddata personol:

Mae rhai categorïau arbennig o ddata personol, fel gwybodaeth am gyflyrau iechyd neu feddygol yn cael eu prosesu er mwyn ddilyn rhwymedigaethau cyfraith

cyflogaeth (fel y rheiny mewn perthynas â staff ag anableddau). Caiff gwiriadau Cofnodion Troseddol eu gwneud pan fo hynny'n angenrheidiol ar gyfer y swydd o dan sylw.

Pan fo'r Cyngor yn prosesu categorïau arbennig eraill o ddata personol fel gwybodaeth ynglŷn â chefnidir ethnig, tueddiad rhywiol neu grefydd neu greddoau, gwneir hyn at ddiben monitro cyfleoedd cyfartal. Mae'r data mae'r Cyngor yn defnyddio at y dibenion yma'n cael ei droi'n ddiennw neu mae'n cael ei gasglu gyda chydysyniad penodol y cyflogeion, a gall y cydsyniad gael ei dynnu yn ôl ar unrhyw adeg. Mae cyflogeion yn rhydd i benderfynu p'un ai i roi data o'r fath a does dim canlyniadau wrth beidio â gwneud.

Gallwn brosesu'r categori data yma oherwydd:

Mae'n angenrheidiol i gwrdd â rhwymedigaethau'r rheolwr a'r sawl sy'n destun y data

6) Pwy sy'n gallu gweld eich data?

Bydd y Cyngor yn rhannu eich data gyda thrydydd partion er mwyn cael tystlythyrau gan gyflogwyr eraill cyn y swydd, cael gwiriadau cefndir ar gyflogaeth gan ddarparwyr trydydd parti a chael gwiriadau cofnodion troseddol o'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Bydd eich data'n cael ei rannu'n fewnol gydag aelodau timau AD a Gwasanaethau Staff (gan gynnwys cyflogau), eich rheolwr llinell, rheolwyr yn y maes busnes yr ydych yn gweithio ynddo a staff TG os yw gweld y data yn angenrheidiol i'w galluogi i wneud eu swyddi. Efallai bydd eich data'n cael ei rannu gyda thrydydd partion sy'n darparu cyrsiau hyfforddi mewnol.

Bydd data hefyd yn cael ei rannu gyda thrydydd partion mewn perthynas â chynllun Pensiwn Galwedigaethol y Cyngor sy'n cael ei weinyddu gan Gynllun Pensiynau Gwent Fwyaf.

Efallai bydd y Cyngor hefyd yn rhannu eich data gyda thrydydd partion yng nghydestun gwerthiant peth o'i fusnes neu'r busnes i gyd. Yn yr amgylchiadau hynny bydd y data'n destun trefniadau cyfrinachedd.

Ydy'r data'n cael ei drosglwyddo i'r tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd?

Nac ydy

7) Sut mae'r Cyngor yn diogelu data?

Mae gan y Cyngor bolisiau mewnol mewn grym i sicrhau nad yw diogelwch y data y mae'n ei brosesu'n cael ei golli, ei ddinistrio'n anfwriadol, ei gamddefnyddio neu ei ddatgelu. Hefyd, nid yw staff yn edrych ar ddata ac eithrio pan fyddant wrth eu dyletswyddau.

Ble mae'r Cyngor yn cyflogi trydydd partïon i brosesu data personol ar ei ran, maen nhw'n gwneud hynny ar sail cyfarwyddiadau ysgrifenedig. Mae gan y trydydd partïon yma hefyd ddyletswydd o gyfrinachedd ac mae'n ofynnol iddyn nhw weithredu mesurau priodol er mwyn sicrhau diogelwch y data

8) Am ba mor hir fydd y Cyngor yn cadw eich data?

Bydd y Cyngor yn dal eich data personol am gyfnod eich cyflogaeth. Mae'r cyfnodau y bydd eich data'n cael ei gadw ar ôl diwedd y cyfnod cyflogaeth yn y cyfnodau cadw perthnasol.

9) Ydyn ni'n gwneud penderfyniadau awtomataidd/proffilio gyda'ch data?

Nid yw penderfyniadau ar gyflogaeth yn cael eu gwneud ar sail penderfyniadau awtomataidd yn unig.

Eich hawliau

Mae gennych nifer o hawliau y gallwch eu harfer:

- gweld a chael copi o'ch data ar gais;
- mynnu bod y Cyngor yn newid data anghywir neu anghyflawn;
- mewn rhai amgylchiadau gallwch fynnu bod y Cyngor yn dileu neu'n peidio â phrosesu'ch data, er enghraifft, os nad yw'r data'n angenrheidiol bellach at ddibenion prosesu;
- cael gwybod yr amser y bydd data'n cael ei gadw;
- yr hawl i hygludedd data;
- yr hawl i dynnu'ch caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg;
- yr hawl i gyflwyno cwyn i awdurdod goruchwyliol (Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth);
- canlyniadau peidio darparu data i'r Cyngor;
- bodolaeth systemau penderfyniadau awtomataidd, gan gynnwys proffilio a chanlyniadau hyn i chi.

Os hoffech arfer unrhyw un neu rai o'r hawliau yma, cysylltwch ag Angela Rogers, Rheolwr AD trwy e-bost angela.rogers@torfaen.gov.uk neu drwy ffonio 01495 742567.

RHEOLAETH DOGFEN

Teitl:	HYSBYSIAD PREIFATRWYDD CYFLOGEION		
Perchennog y Ddogfen:	Pennaeth AD Strategol a Rheoli Asedau		
Awdur y Ddogfen:	Kerry Agate, Uwch Swyddog AD		
Cyfeirnod:	PN003	Cyfnod Cadw	Tan yr adolygiad nesaf
Dosbarthiad y Ddogfen:	Swyddogol	Lleoliad	SWOOP
Fersiwn / Statws	Byw	Cymeradwywyd gan	SIRO
Dyddiad Cyhoeddiad Presennol	Gorffennaf 2019	Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:	Gorffennaf 2022

HANES ADOLYGU

Dyddiad Cyhoeddi	Fersiwn / Statws	Rheswm dros Newid	Newidiwyd gan
Ebrill 2018	1.0 Byw	Crëwyd y ffurflen er mwyn sicrhau Cydymffurfiad â RhDDC	Kerry Agate
Gorffennaf 2019	2.0 Byw	Adolygwyd - dim newidiadau	Jason Lewis